**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref: MA-P-JH-1001-19

John Griffiths AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ebrill 2019

Annwyl

Yn eich llythyr dyddiedig 18 Rhagfyr, gofynnwyd imi anfon diweddariadau rheolaidd bob tri mis gan y Cynghorwyr Cenedlaethol, er mwyn ichi gael sicrwydd o hynt gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.

Rwy'n falch iawn i amgau'r diweddariad cyntaf gan y Cynghorwyr Cenedlaethol sy'n ymdrin a'r cyfnod o Ragfyr 2018 i Fawrth 2019.

Yn gywir

Jane

**Jane Hutt AC**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip

Canolfan Cyswllt Cyntaf I First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Adroddiad Cynghorwyr Cenedlaethol i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**Diweddariad mis Mawrth 2019**

**Diben**

Yn ei lythyr dyddiedig 18 Rhagfyr 2018 at y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, gofynnodd John Griffiths AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, am ddiweddariadau achlysurol gan y Cynghorwyr Cenedlaethol er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch cyflymder gweithredu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.

Dyma ddiweddariad mis Mawrth gan y Cynghorwyr Cenedlaethol ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2019.

**Cyflwyniad**

Mae'r Cynghorwyr Cenedlaethol yn cydnabod bod hwn yn faes trawsbynciol sy'n gofyn am ymrwymiad ar draws adrannau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus, sefydliadau Llywodraeth y DU, y trydydd sector a phartneriaethau perthnasol eraill.

**Dangosyddion Cenedlaethol**

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Ddangosydd Cenedlaethol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol oedd 29 Mawrth 2019. Bydd swyddogion yn adolygu'r ymatebion ac yn llunio ymateb gan Lywodraeth Cymru o fewn 12 wythnos i'r dyddiad cau. Y nod yw cyhoeddi cyfres derfynol o Ddangosyddion Cenedlaethol erbyn mis Gorffennaf 2019.

Rydym yn rhagweld y bydd y dangosyddion yn dwyn ynghyd ddata cymhleth mewn fformat sy'n ystyrlon i bobl sy'n gweithio yn y maes, gwneuthurwyr polisi a'r cyhoedd yn gyffredinol. Dylai'r dangosyddion lywio penderfyniadau strategol, polisi a darparu gwasanaeth yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, a dylanwadu arnynt, yn unol â dibenion y Ddeddf a byddant yn seiliedig ar dair colofn, sef atal, diogelu a chefnogi.

**Strategaethau Lleol**

Cyhoeddodd Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd eu strategaethau ym mis Mai 2018. Bydd swyddogion yn ysgrifennu at y prif weithredwyr i sicrhau eu bod yn llunio adroddiadau ar gynnydd ar gyfer 2018-19 i gyflawni amcanion a nodir yn eu strategaethau lleol. Caiff hyn ei fonitro i sicrhau y caiff yr adroddiadau hyn eu cyhoeddi'n brydlon.

Rydym wedi cynnal arolwg o'r strategaethau a gyhoeddwyd ac wedi canfod eu bod yn gynhwysfawr ac yn drefnus. Yn ystod 2019-20, disgwyliwn lunio arfer da lle bynnag y mae'n bosibl er mwy ei rannu'n ehangach gyda rhanddeiliaid a phartneriaethau allweddol.

**Iechyd**

Rydym wedi gwneud cais am gyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod materion o fewn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20 sy'n berthnasol i flaenoriaethau o fewn y portffolio gweinidogol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

**Model Cyllido Cynaliadwy**

Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn y Strategaeth Genedlaethol i gyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau perthnasol ar gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym wedi cyflwyno ein canllawiau drafft ar gomisiynu ger bron y Cynulliad, ac yn ddibynnol ar unrhyw sylwadau gan Aelodau, disgwylir i'r canllawiau hyn fod yn statudol ar ddiwedd mis Ebrill.

Mae gwahanol ardaloedd wedi cyrraedd gwahanol gamau ar y llwybr i ddatganoli cyfrifoldeb yn llawn i ranbarthau. Nid ydym yn disgwyl i'r gofynion statudol llawn gael eu cyflawni erbyn mis Ebrill 2019, ond byddwn yn disgwyl gweld cynnydd da yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Byddwn yn caniatáu ffordd hyblyg o weithio yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond byddwn yn monitro'r sefyllfa er mwyn sicrhau y caiff y momentwm ei gynnal. Fel Cadeirydd y Grŵp Cyllido Cynaliadwy, mae Yasmin Khan wedi cadeirio dau gyfarfod yn ystod cyfnod y diweddariad hwn, ac mae wedi cytuno â phartneriaid i ddod i gytuno ar ddealltwriaeth a diffiniad o ystyr "cyllid arbenigol". Byddwn yn trefnu ein trydydd cyfarfod ar ôl i Ganllawiau Comisiynu Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol gael eu derbyn gan y Cynulliad.

**Dyraniadau Cyllido**

Mae nifer y dioddefwyr sydd angen gwasanaethau trais rhywiol yn cynyddu bob blwyddyn. Mae'r cynnydd yn y galw a phrinder adnoddau wedi arwain at restrau aros hir i gael gafael ar wasanaethau mewn rhai rhannau o Gymru. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi defnyddio arian o danwariant y grant Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn 2018-2019 a Chronfa Datblygu Rhaglenni i gynorthwyo'r sector trais rhywiol mewn perthynas â'u rhestrau aros ar gyfer cwnsela. Bydd y swyddogion yn ceisio pennu effaith yr ymyriad hwn pan fydd adroddiadau ar hawliadau'n cael eu derbyn a'u dadansoddi ar ddiwedd mis Ebrill.

Er mwyn cefnogi ymgyrchoedd cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a chynorthwyo i godi ymwybyddiaeth o rif ffôn y llinell gymorth Byw Heb Ofn, buddsoddodd Llywodraeth Cymru mewn deunyddiau hyrwyddo. Mae'r deunyddiau hynny wedi'u rhannu â phartneriaid ar hyd a lled Cymru. Bydd y buddsoddiad hwn yn cynorthwyo i barhau i godi ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi comisiynu rhanbarthol cydweithredol a bodloni gofynion y canllawiau comisiynu statudol yn 2019, mae dyraniad wedi cael ei ddarparu i bob partneriaeth ranbarthol i gefnogi gwaith ynghylch pobl ifanc mewn perthynas ag ymgysylltu â chyflawnwyr, cefnogi cyflawnwyr a chefnogaeth i weithredu llwybr gwasanaeth integredig a dadansoddiad o anghenion pellach.

Rydym yn llwyr gefnogi'r cynnydd mewn dyraniadau i fodloni gofynion y cynnydd mewn atgyfeiriadau; mae ein cyfarfodydd â Chanolfannau Trais a Cham-drin Rhywiol (RASAC) ac â New Pathways wedi tynnu sylw at yr heriau y mae gwasanaethau arbenigol yn eu hwynebu yn sgil mwy o alw. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod yr angen am well llwybrau a llwybrau integredig tra bo rhestrau aros yn parhau i leihau'r trawma i ddioddefwyr. Y llynedd, roedd y cyn-Brif Weinidog wedi cyhoeddi y byddai dau adolygiad ar wahân – un ar y ddarpariaeth o ran lloches, ac un ar wasanaethau trais rhywiol. Mae Llywodraeth Cymru newydd gomisiynu Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (CPCC) i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth o ran lloches. Bydd hwnnw'n edrych ar ddulliau rhyngwladol ac yn ceisio cael cyngor darparwyr arbenigol. Gofynnwyd i CPCC wneud argymhellion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer dynion a menywod sy'n dianc rhag camdriniaeth.

**Canllawiau Statudol**

Canllawiau Comisiynu Rhanbarthol

Fel y nodwyd uchod, cyfrannodd Aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cynaliadwy at lunio canllawiau ar gyfer comisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn dilyn ymgynghoriad, gosodwyd hyn gerbron y Cynulliad ar 21 Chwefror 2019. Yn amodol ar benderfyniad negyddol, caiff ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Ebrill a daw yn statudol ar yr un diwrnod ag y caiff ei gyhoeddi.

Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol

Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol ar y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ym mis Mawrth 2016. Erbyn mis Rhagfyr 2018, roedd 134,807 o ddysgwyr wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu ar godi ymwybyddiaeth.

Mae hyfforddiant ar gyfer gweithwyr arbenigol a'u rheolwyr wedi dechrau, gyda 24 o ddysgwyr yn cwblhau'r cwrs IDVA (Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig) a 24 o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau rheolwyr gwasanaethau ar hyn o bryd. Disgwylid i'r ddau grŵp gwblhau'r cyrsiau erbyn diwedd mis Mawrth.

Cynhaliwyd cynhadledd arweinyddiaeth gyhoeddus ddiwedd mis Mawrth 2019. Anelwyd y gynhadledd hon at uwch arweinwyr a'r rhai sydd â chyfrifoldeb comisiynu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Roedd yn nodi cyfrifoldebau arweinyddiaeth o dan y Ddeddf, yn gwneud yr achos dros greu dull gweithlu cyfan ar gyfer adrodd ac ymateb yn gynnar, a hyrwyddo ymgorffori atal trais yn erbyn menywod yn rhan o fusnes craidd pob sefydliad. Siaradodd Nazir Afzal yn y gynhadledd ar "Rolau a chyfrifoldebau'r sector cyhoeddus".

Gofyn a Gweithredu

Cyhoeddwyd hyfforddiant ar 'Gofyn a Gweithredu' ym mis Tachwedd 2017. Cyhoeddwyd hyn fel canllawiau drafft er mwyn galluogi gweithredwyr cynnar i roi adborth ar eu profiadau o weithredu'r canllawiau. Bydd canllawiau statudol yn dilyn erbyn diwedd 2019-20.

Dyfarnwyd contract newydd ym mis Rhagfyr 2018 i Gymorth Menywod Cymru ddarparu hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, sy'n cynnwys yr angen i adolygu'r hyfforddiant yng ngoleuni adborth a gafwyd. Mae'r contract yn cynnwys datblygu a chyflwyno dau gwrs 'hyfforddi'r hyfforddwyr' penodol a dau becyn hyfforddi a ddarperir i'r hyfforddwyr sydd wedi'u hyfforddi i'w cyflwyno'n lleol.

Mae Gofyn a Gweithredu yn parhau i gael ei ddarparu i bum safle'r mabwysiadwyr cynnar/peilot ac mae cyfarfodydd cynllunio wedi cael eu cynnal i ddechrau ar yr hyfforddiant yn ardaloedd blaenoriaeth 2019, Canolbarth a Gorllewin Cymru a Gogledd Cymru ar gyfer mis Ebrill.

Dylai adroddiadau hyfforddiant blynyddol gael eu cyflwyno ym mis Mai 2019 a chaiff dadansoddiad o'r dysgwyr ei gwblhau hefyd.

Ein canfyddiad yw bod gwasanaethau wedi mynegi pryder am yr oedi. Fodd bynnag, mae rhywfaint o eglurder ynghylch y ffordd ymlaen a'r trefniadau gweithredu.

**Addysg**

Mae gwaith yn parhau o ran datblygu'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm newydd yn raddol o 2021 ymlaen.

Mae prif swyddogion Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i ymgysylltu â chydweithwyr ym maes addysg a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod addysg rhyw a chydberthynas yn adlewyrchu polisi.

Mae'r Canllawiau addysg rhyw a chydberthynas presennol wedi cael eu hailddrafftio ac mae ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd ar hyn o bryd. Nid yw dyddiad cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig wedi'i gadarnhau eto.

Mae ymarfer mapio'n digwydd ar hyn o bryd i ganfod yr holl adnoddau a phrosiectau addysg rhyw a chydberthynas sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd mewn ysgolion. Y nod yw cwblhau'r ymarfer hwn erbyn yr haf, os bydd y cyllid yn cael ei gymeradwyo. Disgwylir y bydd yn haws i swyddogion ganfod unrhyw fylchau sydd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn cefnogi darpariaeth bresennol mewn ysgolion.

Mae swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru i gynorthwyo i ddatblygu polisïau a chanllawiau ar Drais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Y nod yw llunio canllawiau drafft erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Rydym wedi trefnu cyfarfod â'r Gweinidog Addysg ar gyfer 30 Ebrill i drafod materion o fewn ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2019-20 sy'n berthnasol i flaenoriaethau o fewn portffolio'r gweinidog addysg.

**Gweithio gyda chyflawnwyr**

Cynhaliwyd digwyddiadau rhannu ymarfer yn Llandudno a Chaerdydd ym mis Ionawr. Mae'r digwyddiadau'n dal i gael eu croesawu ac mae nifer fawr yn bresennol ynddynt.

Daeth yr ymgynghoriad ar Ganllawiau Gwasanaethau Cyhoeddus i ben fis Chwefror a disgwylir iddo gael ei gyhoeddi'n derfynol ddiwedd y gwanwyn.

Cynhaliwyd adolygiad o'r prosiect DRIVE ym Merthyr ddechrau mis Ionawr a chyhoeddwyd adroddiad arno.

Dyrannwyd taliad grant i Brifysgol Abertawe i gefnogi gwaith ymchwil a hyfforddiant ar aflonyddu mewn cydweithrediad â chronfa KESS II (Ysgoloriaethau Sgiliau'r Economi Wybodaeth), rhan o Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Cynhaliwyd cyfarfod y grŵp llif gwaith strategol ym mis Mawrth ac roedd yn cynnwys gweithdy datrys problemau. Mae'r aelodau wedi nodi materion yn y broses gomisiynu. Dechreuodd strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gyfer gogledd Cymru ym mis Mawrth - gyda chyfres o ymweliadau, cyfarfodydd a chynadleddau ffôn wedi'u cwblhau erbyn canol mis Mawrth, gan gynnwys ymweliad â phrosiect KIM yn Nhreffynnon.

**Cyfathrebu**

Cafodd gweithgareddau cyfathrebu â'r gymuned eu trefnu i ledaenu cyrhaeddiad ein holl ymgyrchoedd. Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i Cymorth i Ferched Cymru, Bawso, Survivors Trust a Phrifysgol Caerdydd i ddatblygu'r gweithgaredd hwn.

Mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â'r grwpiau allweddol a ganlyn; plant a phobl ifanc; dynion sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol; pobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig a cheiswyr lloches a ffoaduriaid; prifysgolion a'u myfyrwyr; y rhai sydd wedi dioddef cam-drin domestig.

Mae'r gweithgareddau hyn mewn cymunedau wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid ledled Cymru ac mae'n cynnig ffordd fwy ystyrlon o ymchwilio i faterion yn ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chodi ymwybyddiaeth ohonynt.

Disgwylir gwerthusiad llawn o'r gweithgareddau erbyn diwedd mis Ebrill 2019

Cafodd yr ymgyrch "Nid cariad yw hyn. Rheolaeth yw hyn" ei lansio ym mis Ionawr 2019. Nod yr ymgyrch oedd tynnu sylw at natur dwyllodrus, gronnol rheolaeth gymhellol, yn ogystal â'i gyfrwystra. Mae ffilmiau'r ymgyrch wedi cael eu gwylio dros 120,000 o weithiau ar Facebook, Twitter ac You Tube hyd yn hyn.

Gwnaed y gwaith cynllunio ar gyfer dau gam nesaf yr ymgyrch “rheolaeth” ym mis Mawrth hefyd, gyda darparwyr arbenigol yn gweithio ym meysydd cam-drin / trais rhywiol neu blant a phobl ifanc yn cael eu gwahodd i weithdai er mwyn diffinio negeseuon ar gyfer y darpar ymgyrchoedd hyn yn ogystal ag awgrymu sianelau priodol.

Rydym wedi bod i lansiad y tair ymgyrch hyd yn hyn. Mae ymgysylltiad goroeswyr a’r ffordd y maent wedi dylanwadu ar yr ymgyrchoedd wedi arwain at adborth cadarnhaol iawn.

**Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr**

Cafodd cyfweliadau ymchwil a ffocws gyda goroeswyr grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol eu cynnal drwy gydol mis Mawrth a mis Ebrill. Nod y gwaith hwn yw mynd i’r afael â bylchau y gwyddom amdanynt o ran gwybodaeth a datblygu’r ymrwymiad i sicrhau bod gan grŵp mwy cynrychioliadol o oroeswyr rôl ffurfiol mewn llywio polisi Llywodraeth Cymru.

Caiff canlyniadau’r rhaglen beilot eu gwerthuso a gwneir argymhellion am Fframwaith Cenedlaethol hirdymor ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr gyda chysylltiadau ffurfiol â strwythurau llywodraethu cenedlaethol VAWDASV.

Disgwylir i banel arbrofol goroeswyr cenedlaethol gael ei gynnull ym mis Medi 2019.

**Byw Heb Ofn**

Mae asesiad o werthusadwyedd wedi cael ei gynnal er mwyn llywio’r broses o ddylunio manylebau tendro contract nesaf y llinell gymorth Byw Heb Ofn. Y bwriad yw cynorthwyo gyda phenderfyniadau am opsiynau ar gyfer gwerthusiadau gwasanaeth y llinell gymorth yn y dyfodol a’i effaith ar Gymru. Cyhoeddir yr adroddiad yn 2019.

Mae gwefan Byw Heb Ofn yn croesawu negeseuon ac adnoddau prif ymgyrchoedd, yn derbyn negeseuon e-bost gan ddioddefwyr, darparwyr gwasanaethau ac eraill sy’n pryderu, ac mae cyfleuster sgwrs fyw ar gyfer y rhai sy’n gyndyn o gymryd rhan mewn sgwrs ffôn, neu na allant wneud hynny.

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd a Phriodasau dan Orfod**

Mae swyddogion yn parhau i gyd-gadeirio’r Grŵp Arweinyddiaeth Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, Trais ar sail Anrhydedd a Phriodasau dan Orfod yng Nghymru. Mae’r grŵp wrthi’n datblygu cynllun cyflawni ar gyfer 2019-2020. Caiff hyn ei roi ar waith ym mis Ebrill 2019.

Aethom i ddigwyddiad Llywodraeth Cymru a’r Swyddfa Gartref gyda’n gilydd a chyflwyno Canllaw Ymarferol i Orchmynion Diogelu Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod a Gorchmynion Diogelu Priodasau dan Orfod, a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019. Roedd y daith yn rhan o’r ymgynghoriad a oedd yn casglu barn ynghylch a

oedd angen cyflwyno dyletswydd orfodol newydd i roi gwybod am achosion o briodasau dan orfod ac, os oedd, sut beth fyddai'r gofyniad hwn. Rydym yn parhau i weithio gyda gwasanaethau arbenigol i sicrhau bod yr amrywiaeth eang o faterion sy'n effeithio ar grwpiau BAME ledled Cymru yn cael eu trafod.

**Casgliadau**

Bydd ein rhaglen ar gyfer y chwarter nesaf yn canolbwyntio ar y Dangosyddion Cenedlaethol a gweithio tuag at y nod o ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau er mwyn darparu dull mwy strategol o gyllido a chomisiynu gwasanaethau i wella cynaliadwyedd. Rydym yn cynllunio Cynhadledd Genedlaethol yn ddiweddarach yn y flwyddyn a fydd yn cynnwys partneriaethau, rhanddeiliaid a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i dynnu sylw at gynnydd a gafwyd yn erbyn amcanion Deddf 2015 a chanfod blaenoriaethau a bylchau penodol. Bydd y sgwrs genedlaethol hon yn sail i ddarparu glasbrint ar gyfer gwell gwasanaethau ledled Cymru, gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion a nodwyd a llais goroeswyr.

Cynghorwyr Cenedlaethol

Mawrth 2019